

# SESIWN 1: HAWLIAU, CANEUON RHYDDID A'R MUDIAD HAWLIAU SIFIL

Ystod oedran: 7-11 oed

<b>Amlinelliad</b> Bydd y dysgwyr yn dechrau trwy feddwl am y term “cydraddoldeb”, cyn edrych ar gysyniad hawliau trwy wahaniaethu rhwng “angen” a “dymuniad”. Bydd y dysgwyr yn myfyrio ar sut y mae caneuon a chanu yn effeithio ar y ffordd y maent yn teimlo. Yna byddant yn dysgu cân fel dosbarth ( <i>This Little Light of Mine</i> ) ac yn edrych ar rôl canu Gospel a Chaneuon Rhyddid yn y Mudiad Hawliau Sifil yn America.	
<b>Amcanion dysgu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Adeiladu gwybodaeth am hawliau a chydraddoldeb.</li><li>• Datblygu hyder o ran canu a chof tonyddol</li><li>• Myfyrio ar sut y gall caneuon helpu pobl i reoli a mynegi eu teimladau.</li><li>• Dechrau deall rôl cerddoriaeth yn y Mudiad Hawliau Sifil.</li></ul>	<b>Deilliannau dysgu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Bydd y dysgwyr yn canu un o ganeuon traddodiadol cerddoriaeth Gospel Americanaidd er mwyn dod i ddeall gwreiddiau math o gerddoriaeth brotest.</li></ul>
<b>Cwestiynau allweddol</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Beth yw'r gwahaniaeth rhwng “anghenion” a “dymuniadau”?</li><li>• Beth yw hawliau?</li><li>• Beth oedd y Mudiad Hawliau Sifil?</li><li>• Beth oedd rôl caneuon yn y Mudiad Hawliau Sifil?</li><li>• Sut y gall caneuon helpu pobl i fynegi eu teimladau?</li></ul>	<b>Adnoddau</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Sioe Sleidiau: <i>Codi Ein Lleisiau</i>, sleidiau 1–12</li><li>• Taflen gweithgaredd: <i>This Little Light of Mine</i> (geiriau)</li><li>• Trac cefndir ar gyfer <i>This Little Light of Mine</i> (2 funud 15 eiliad)</li><li>• Nodiadau cefndir i'r athro</li></ul>

## Amlinelliad o'r sesiwn

### Tasg gychwynnol (10 munud)

#### Cydraddoldeb

- Dangoswch sleid 3. Gofynnwch i'r dysgwyr beth yw hwn. (Symbol hafal.)
- Trafodwch beth yw ystyr hafal. Er enghraifft, os yw dau afal yn pwyso'r un faint â dwy ellygen, mae pwysau'r afalau a phwysau'r gellyg yn hafal, neu'n gyfartal; neu os yw merch a'i gefell yn cael £2 yr un o arian poced, maen nhw'n cael swm hafal neu gyfartal o arian.
- Gofynnwch a yw'r dosbarth yn credu bod modd i bobl fod yn gyfartal, neu'n gydradd. Ysgrifennwch y gair "cydraddoldeb" ar y bwrdd a dywedwch wrth y dosbarth fod y gair hwn yn golygu "bod yn gydradd". Gofynnwch iddynt beth y mae hyn yn ei olygu wrth drafod pobl. Ewch ati i danio syniadau a'u hysgrifennu ar y bwrdd. Efallai y bydd angen i chi arwain y dysgwyr at y syniad fod cydraddoldeb yn golygu sicrhau bod gan bob unigolyn siawns gyfartal i wneud yn fawr o'i fywyd, ble bynnag y caiff ei eni, beth bynnag yw ei gred neu p'un a oes ganddo anabledd neu beidio.
- Rhestrwch a thrafodwch y nodweddion penodol sydd wedi achosi i bobl beidio â bod yn gydradd yn y gorffennol:
  - Hil
  - Anabledd
  - Rhywedd
  - CrefyddA yw'r dysgwyr yn meddwl bod hyn yn deg?
- Gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt yn meddwl bod rhai o'r anghydraddoldebau hyn yn dal i fodoli heddiw (naill ai yn y Deyrnas Unedig neu mewn rhan arall o'r byd).

### Gweithgaredd 1.1 (15 munud)

#### Archwilio hawliau

D.S. Os ydych wedi astudio hyn yn rhan o Codi ei Llais, gallwch ei grynhoi yn sydyn yma.

#### Anghenion a dymuniadau

- Gofynnwch i'r dysgwyr am y pethau y mae arnynt eu hangen bob dydd, gan awgrymu pethau fel bwyd, diod, dillad, lle i weithio neu chwarae, cyfathrebu, iechyd, trafnidiaeth ac ati. Ysgrifennwch eu hawgrymiadau ar y bwrdd.
- Gofynnwch i'r dosbarth ystyried pa rai o'r rhain sy'n "anghenion" a pha rai sy'n "ddymuniadau". Trafodwch y rhestr a rhowch gylch coch o amgylch pob angen a chylch gwyrdd o amgylch pob dymuniad.
- A oes mwy o gylchoedd coch neu gylchoedd gwyrdd? Pam felly?
- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar yr anghenion (efallai y gallech eu hysgrifennu ar ffurf rhestr i'w gwneud yn gliriach). Anogwch nhw i ganolbwyntio ar y pethau y mae gwir eu hangen arnynt

er mwyn byw. A ddylai pawb gael bodloni'r anghenion sylfaenol hyn? Pam/Pam ddim? Yn eu barn nhw, pa bethau y mae gan bawb hawl iddynt? Efallai y bydd rhaid i chi annog y dysgwyr i ystyried syniadau fel teulu, lloches, diogelwch, addysg, chwarae, meddyginiaeth a chyfeillgarwch.

- Marciwch y rhai y mae'r dosbarth cyfan o'r farn eu bod yn hanfodol er mwyn goroesi. Efallai y byddwch am gyfeirio'n ôl at y rhestr hon yn y sesiwn lawn, felly cadwch gopi ohoni ar y bwrdd os bydd hynny'n bosibl.

## Hawliau

- Dangoswch sleid 4 sy'n cyflwyno fersiwn wedi'i symleiddio o Siarter Hawliau Sylfaenol Bydeang Oxfam a seiliwyd ar ymgynghoriad hir â phobl sy'n dioddef yn sgil tlodi ac anghyfiawnder (gweler y Nodiadau cefndir i'r athro). Trafodwch y rhestr â'r dosbarth. Efallai hefyd yr hoffech ddangos fideo sy'n cyflwyno Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol: [vimeo.com/2308360](https://vimeo.com/2308360) (3 munud 35 eiliad, neu 4 munud 18 eiliad yn cynnwys y credydau).
- Esboniwch fod yr hawl ddynol gyntaf yn Natganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol yn dweud bod "pob bod dynol yn cael ei eni'n rhydd ac yn **gydradd** o ran urddas a hawliau".

## Gweithgaredd 1.2 (30 munud)

### *Caneuon Rhyddid a'r Mudiad Hawliau Sifil*

- Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am gân sy'n codi eu hwyliau pan fyddant yn drist. Pa ganeuon y gallent eu canu i godi eu calonnau? Sut y mae'r caneuon hyn yn gwneud iddynt deimlo? Trafodwch a ydynt yn hoffi canu gyda phobl eraill ac a yw eu lleoliad a'r bobl y maent yn eu cwmni yn gwneud gwahaniaeth, er enghraifft os ydynt yn yr ysgol, gartref, neu mewn gêm bêl-droed. Pam y mae'r dysgwyr yn meddwl hyn?
- Esboniwch i'r dosbarth eu bod yn mynd i gydganu cân o'r enw *This Little Light of Mine*. Mae hon yn gân eithaf adnabyddus felly mae'n bosibl y bydd rhai yn ei gwybod yn barod. Defnyddiwch y cyswllt fideo i wrando arni yn gyntaf ac yna gallwch arddangos y geiriau ar sleid 5 neu roi'r daflen gweithgaredd sy'n cynnwys y geiriau i'r plant. Os ydych yn dymuno, gallwch ddefnyddio'r trac cefndir a ddarperir. (Nodwch fod y trac cefndir yn cynnwys chwe phennill yn unig, felly bydd y gytgan olaf yn ddigyfeiliant. Bydd y dysgwyr yn gwybod yr alaw erbyn hynny fodd bynnag.)  
[vimeo.com/15007038](https://vimeo.com/15007038) (2min 48sec)

## Gwahaniaethu

*Gwneud pethau'n haws: Canwch y gytgan a'r pennill cyntaf yn unig.*

*Gwneud pethau'n anos: Heb ddefnyddio trac cefndir, rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp a chanu'r gân ar ffurf tôn gron, gan ddod â'r ail grŵp i mewn ar ôl i'r grŵp cyntaf offen canu'r llinell gyntaf, This little light of mine.*

- Ar ôl canu, dangoswch sleidiau 6–9 i gyflwyno'r Mudiad Hawliau Sifil a thrafod rôl Caneuon Rhyddid (edrychwch ar y nodiadau cefndir i'r athro ar ddiwedd y ddogfen hon).

- Gofynnwch a all y dysgwyr esbonio'r cysylltiad rhwng geiriau *This Little Light of Mine* a chydaddoldeb. Esboniwch fod pob unigolyn yr un mor bwysig â'r llall, a chanddo rywbeth cadarnhaol i'w gyfrannu i'r byd beth bynnag yw ei hil neu'i rywedd. Nid oes angen i bobl guddio pwy ydynt.
- Os bydd gennych amser, chwaraewch bwt o araith Martin Luther King i'r dysgwyr o'r fideo hwn (mae'r adran "I have a dream" yn dechrau ar ôl 12 munud 30 eiliad): [vimeo.com/35051588](https://vimeo.com/35051588) (17 munud 28 eiliad).

## Sesiwn lawn (5 munud)

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl pa hawliau o'r rhestr o anghenion y cytunodd y dosbarth arni yng Ngweithgaredd 1.1 a gafodd eu gwrthod i Americanwyr du nes i'r gyfraith gael ei newid ar ddechrau'r 1960au. Gofynnwch iddynt dreulio ychydig o funudau yn trafod hynny mewn parau cyn dod â'r dosbarth at ei gilydd i rannu eu syniadau.

Gwylwch y fideo hwn am Rosa Parks i ddysgu mwy am y Mudiad Hawliau Sifil:

[www.youtube.com/watch?v=pxTWb38NERg](https://www.youtube.com/watch?v=pxTWb38NERg) (2 funud 59 eiliad)

## Syniadau pellach

- Dechreuwyd defnyddio canu Gospel fel math o wrthsafiad yn oes y fasnach gaethion, ac mae caneuon tebyg i *This Little Light of Mine* yn cael eu galw'n "ganeuon y gweithwyr". Nid yw'r adnodd hwn yn rhoi sylw i'r fasnach gaethion, ond mae gan yr Amgueddfa Gaethwasiaeth Ryngwladol adnoddau addas ar gyfer plant 7–11 oed sy'n edrych yn fanylach ar y fasnach gaethion.  
[www.liverpoolmuseums.org.uk/ism/learning/downloads/International-Slavery-Museum-teachers-pack.pdf](http://www.liverpoolmuseums.org.uk/ism/learning/downloads/International-Slavery-Museum-teachers-pack.pdf)

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.



## This Little Light of Mine

### ***Cytgan***

This little light of mine  
I'm going to let it shine  
This little light of mine  
I'm going to let it shine  
This little light of mine  
I'm going to let it shine,  
Let it shine, let it shine, let it shine

### **Pennill 1**

Everywhere I go  
I'm going to let it shine  
Everywhere I go  
I'm going to let it shine  
Everywhere I go  
I'm going to let it shine,  
Let it shine, let it shine, let it shine

### ***Cytgan***

This little light of mine  
I'm going to let it shine ...

### **Pennill 2**

All in my house  
I'm going to let it shine  
All in my house  
I'm going to let it shine  
All in my house  
I'm going to let it shine,  
Let it shine, let it shine, let it shine

### ***Cytgan***

This little light of mine  
I'm going to let it shine ...

### **Pennill 3**

Out in the dark  
I'm going to let it shine  
Out in the dark  
I'm going to let it shine  
Out in the dark  
I'm going to let it shine,  
Let it shine, let it shine, let it shine

### ***Cytgan***

This little light of mine  
I'm going to let it shine ...

## Nodiadau cefndir i'r athro

### Y fasnach gaethion

Er nad yw'r adnodd hwn yn canolbwyntio ar y fasnach gaethion, mae cyswllt amlwg rhwng y fasnach honno a'r Mudiad Hawliau Sifil. Felly, efallai y bydd y nodiadau hyn yn ddefnyddiol i chi o ran llywio'r drafodaeth gyda'ch dysgwyr.

Parodd y fasnach gaethion drawsiewerydd o'r unfed ganrif ar bymtheg tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a gwelwyd miliynau o bobl yn cael eu cludo a'u caethiwo gan fasnachwyr o Bortiwgal, Prydain, Sbaen, yr Iseldiroedd a Gogledd America. Amcangyfrifir bod rhwng 9.4 a 12 miliwn o Affricanwyr wedi cael eu dwyn ar longau o orllewin a chanolbarth Affrica i'r trefedigaethau newydd yng Ngogledd a De America. Gorfodwyd y caethion hyn i weithio heb dâl yn y planigfeydd coffi, coco a chotwm; yn y diwydiant adeiladu, mewn mwyngloddiau neu fel gweision. Daeth defnyddio caethion yn sylfaen i lawer o'r economïau hyn, yn enwedig diwydiant cotwm America yn nhaleithiau'r de.

Dioddefai'r caethion amodau creulon ac israddol yn gyffredinol ac roedd achosion o chwipio, curo, cam-drin rhywiol a lladd yn gyffredin. Câi'r caethion eu hatal rhag dysgu darllen ac ysgrifennu rhag ofn i hynny achosi iddynt wrthryfela neu ddianc. Roedd unrhyw ofal meddygol yn cael ei ddarparu gan gaethion eraill. Nid oedd priodas rhwng caethion yn cael ei chydabod yn swyddogol ac felly roedd rhyddid gan berchennog i wahanu teuluoedd ar unrhyw adeg. Anfonid plant allan i weithio pan oeddent yn 12 oed neu oddeutu hynny.

Dechreuodd y mudiad yn erbyn caethwasiaeth ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Bu unigolion allweddol megis Thomas Clarkson (1760–1846), William Wilberforce (1759–1833) ac Olaudah Equiano (c.1745–1797) yn ymgyrchu yn erbyn y fasnach am flynyddoedd lawer ym Mhrydain. Yn America, caethwasiaeth oedd wrth wraidd y Rhyfel Cartref rhwng taleithiau'r gogledd a thaleithiau'r de. Ar ôl y rhyfel, roedd prynu caethion yn anghyfreithlon a phasiodd y Gyngres ddeddfwriaeth hawliau sifil gyda'r nod o amddiffyn y rhai a fu'n gaethion.

### Y Mudiad Hawliau Sifil

Er bod y fasnach gaethion wedi darfod roedd hiliaeth yn rhan annatod o ddeddfwriaeth o hyd, gyda sawl talaith yn ne'r wlad yn pasio "Codau Du" a oedd yn cyfyngu hawliau sifil Americanwyr Affricanaidd. Achosodd hyn arwahanu hiliol mewn manau cyhoeddus a thâl rhy fychan mewn cyflogaeth. Symudodd llawer o bobl ddu i'r dinasoedd yng ngogledd y wlad yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd y Mudiad Hawliau Sifil a oedd ar waith yn nhaleithiau'r de yn America yn fudiad torfol poblogaidd dros sicrhau bod hawliau sylfaenol dinasyddion yr Unol Daleithiau, megis mynediad at addysg a'r hawl i bleidleisio, ar gael i bawb. Sefydlwyd y mudiad gan ymgyrchwyr megis Rosa Parks a Martin Luther King Jr gyda phrotestiadau di-drais a boicotiau ym mlynnyddoedd olaf yr 1950au a'r 1960au. Erbyn 1963 roedd y genedl yn arswydo at yr ymateb treisgar i'r gwrthdystiadau, ac arweiniodd hynny at gais gan yr Arlywydd Kennedy am fil hawliau sifil i roi diwedd ar wahaniaethu hiliol. Llofruddiwyd yr Arlywydd ond pasiwyd y bil serch hynny yn 1964 a gwaharddwyd gwahaniaethu ac arwahanu.

Roedd cerddoriaeth a chanu yn bwysig o ran ysbrydoli, ysgogi a rhoi llais i'r Mudiad Hawliau Sifil. Yn ei lyfr, *Why We Can't Wait*, a luniwyd yn 1964, ysgrifennodd Martin Luther King fod pobl "yn canu'r caneuon rhyddid heddiw am yr un rhesymau ag y gwnâi'r caethion, am ein bod ninnau

mewn caethiwed ac mae'r caneuon yn ychwanegu gobaiith at ein penderfyniad". Nid y Caneuon Rhyddid oedd unig anthemau'r Mudiad Hawliau Sifil. Cydnabyddir bod cerddorion enwog, du a gwyn, er enghraifft Nina Simone, Aretha Franklin, Pete Seeger, Joan Baez a Bob Dylan i gyd wedi defnyddio'u cerddoriaeth i gefnogi'r mudiad.

## Hawliau Dynol

Mae hawliau naturiol – yr hawliau sy'n perthyn i bob unigolyn yn rhinwedd eu dynoliaeth – yn gysyniad hen iawn. Fe'i datblygwyd ar ryw ffurf neu'i gilydd mewn sawl cymdeithas ddynol er gwaethaf y gwahaniaethau eang yn eu diwylliannau a'u syniadau am yr unigolyn.

Fodd bynnag, nid yw cydnabod hawliau naturiol neu foisol yn golygu bod yr hawliau hyn ar gael yn sicr ac yn ddiofyn i bawb. Trwy gydol hanes, bu'n rhaid i bobl frwydro i sicrhau eu hawliau. Bu gweithredu dros gyfiawnder yn fodd i uno pobl mewn rhai o fudiadau mwyaf cofiadwy'r byd yn erbyn gormes a gorthrwm. Mae'r rhain yn cynnwys y frwydr dros ryddid rhag caethwasiaeth, yr hawl i bleidleisio, yr hawl i weithredu'n wleidyddol, a'r hawl i arddel eich crefydd eich hun heb erledigaeth.

Lle bynnag y bydd hawliau, bydd cyfrifoldebau gan bawb hefyd i sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu gwireddu. Gall y cyfrifoldebau fod yn gyfreithiol (er enghraifft, talu trethi ac ufuddhau i'r gyfraith) neu'n foisol. Mae pobl wedi brwydro i ddiogelu hawliau moesol yn gyfreithiol, trwy gyfraith genedlaethol neu ryngwladol. Cafwyd llawer cod a chyfraith a geisiai ddiffinio ac amddiffyn hawliau. Datblygwyd y rhain i gyd-fynd â hinsawdd foisol a gwleidyddol yr oes, ac yr oeddent yn aml yn eithrio grwpiau gwannaf cymdeithas, er enghraifft, caethion neu lafurwyr sydd heb dir, menywod a phlant.

Yn yr ugeinfed ganrif, gwelwyd codau hawliau dynol rhyngwladol a rhanbarthol sydd â'r nod o geisio sicrhau rhai hawliau sylfaenol i bawb yn cael eu datblygu a'u cymeradwyo gan bob un bron o lywodraethau'r byd. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (1948); y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (1989); Siarter Affrica ar Hawliau Dynol a Phobl (1981); a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (1950). Mae'r deddfau hyn yn ganllawiau ar gyfer llywodraethau gwladol, ac mae llawer gwlad wedi cynnwys y codau hyn neu rai tebyg yn eu cyfansoddiadau. Mae modd gorfodi confensiynau hefyd trwy asiantaethau rhyngwladol tebyg i Lys Hawliau Dynol Ewrop.

Er gwaethaf grym y codau hyn yn ôl y gyfraith, gwelir ymyrryd difrifol â hawliau pobl ar lefel ymarferol mewn sawl rhan o'r byd. Mae pobl yn dal i fyw heddiw mewn angen enbyd, heb allu fforddio'r lloches fwyaf sylfaenol na'r isafswm bwyd sy'n ofynnol er mwyn byw bywyd gweithgar a chynhyrchiol. Er bod gan bawb hawliau pan gânt eu geni, gwrthodir yr hawliau hyn i ddegau o filiynau o bobl ledled y byd.

## Siarter Fyd-eang Oxfam dros Hawliau Sylfaenol

Mae Oxfam wedi cynhyrchu ei restr ei hun o hawliau sylfaenol, yn seiliedig ar ymgynghoriad hir â phobl sy'n dioddef yn sgil tlodi ac anghyfiawnder. Dangosir y rhain ar sleid 4. Maent yn fwy na'r gofynion angenrheidiol ar gyfer goroesi, ac maent yn sylfaen ar gyfer pob hawl arall. Ym marn Oxfam, mae cyswllt anorfod rhwng lleihau tlodi a sicrhau hawliau, ac mae gofyn rhoi'r cyfle i bobl gael rheolaeth dros eu bywydau yn y tymor hirach. Mae hyn yn golygu rhoi addysg iddynt, modd i ennill bywoliaeth neu ddarparu ar eu cyfer eu hunain, a'r hyder a'r wybodaeth angenrheidiol i fynegi barn wrth y rhai sydd mewn grym.

## Crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

1. Mae pob bod dynol yn cael ei eni'n rhydd ac yn gydradd o ran urddas a hawliau.
2. Mae gan bawb yr hawl i dderbyn yr holl hawliau a rhyddfrefiniau a restrir yn y Datganiad, beth bynnag yw eu hil, lliw, rhyw neu grefydd.
3. Mae gan bawb yr hawl i fywyd, rhyddid a diogelwch.
4. Ni chaiff neb ei ddal yn gaethwas.
5. Ni chaniateir poenydio neb, na thrin na chosbi neb yn greulon, yn annynol na'n ddiraddiol.
6. Mae gan bawb yr hawl i gael cydnabyddiaeth yng ngŵydd y gyfraith.
7. Mae pawb yn gydradd yng ngolwg y gyfraith.
8. Mae gan bawb yr hawl i rwymedi effeithiol os amherir ar eu hawliau dynol.
9. Ni chaiff neb ei ddwyn i ddalfa, na'i gaethiwo na'i alltudio yn fympwyol.
10. Mae gan bawb yr hawl i gael gwrandawriad teg.
11. Mae pawb yn ddieuog nes y profir eu bod yn euog.
12. Ni chaiff neb ddioddef ymyrraeth fympwyol.
13. Mae gan bawb yr hawl i'r rhyddid i symud.
14. Mae gan bawb yr hawl i geisio lloches.
15. Mae gan bawb yr hawl i genedligrwydd.
16. Mae gan bawb yr hawl i briodi.
17. Mae gan bawb yr hawl i feddu eiddo.
18. Mae gan bawb yr hawl i ryddid meddwl.
19. Mae gan bawb yr hawl i ryddid barn a mynegiant.
20. Mae gan bawb yr hawl i ryddid i ymgynnull a chymdeithasu.
21. Mae gan bawb yr hawl i gymryd rhan mewn llywodraeth.
22. Mae gan bawb yr hawl i ddiogelwch cymdeithasol llawn.
23. Mae gan bawb yr hawl i weithio.
24. Mae gan bawb yr hawl i orffwys a hamdden.
25. Mae gan bawb yr hawl i safon byw ddigonol i'w hiechyd a'u llesiant.
26. Mae gan bawb yr hawl i addysg.
27. Mae gan bawb yr hawl i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol eu cymuned.
28. Mae gan bawb yr hawl i drefn gymdeithasol a rhyngwladol sy'n caniatáu gwireddu'r rhyddid a'r hawliau hyn yn llawn.
29. Mae gan bawb ddyletswyddau tuag at y gymuned a dyletswydd i barchu rhyddid a hawliau pobl eraill.
30. Ni chaniateir dehongli bod dim yn y Datganiad hwn i olygu bod hawl i ddinistrio unrhyw un o'r hawliau a'r rhyddfrefiniau a ddisgrifir ynddo.

[www.un.org/en/universal-declaration-human-rights/](http://www.un.org/en/universal-declaration-human-rights/)

I gael rhagor o syniadau ynghylch addysgu am hawliau, edrychwch ar yr adnoddau hyn gan Oxfam:

[Hawliau Plant \(plant 8–11 mlwydd oed\)](#)

[Datblygu Hawliau \(pobl ifanc 11–14 blwydd oed\)](#)



## Dolenni a chyfeiriadau defnyddiol

[en.wikipedia.org/wiki/Atlantic\\_slave\\_trade](https://en.wikipedia.org/wiki/Atlantic_slave_trade)

[en.wikipedia.org/wiki/African-American\\_Civil\\_Rights\\_Movement\\_%281954%E2%80%9368%29](https://en.wikipedia.org/wiki/African-American_Civil_Rights_Movement_%281954%E2%80%9368%29)

[mlk-](https://mlk-kpp01.stanford.edu/index.php/encyclopedia/encyclopedia/enc_songs_and_the_civil_rights_movement/)

[kpp01.stanford.edu/index.php/encyclopedia/encyclopedia/enc\\_songs\\_and\\_the\\_civil\\_rights\\_movement/](https://mlk-kpp01.stanford.edu/index.php/encyclopedia/encyclopedia/enc_songs_and_the_civil_rights_movement/)

[www.oxfam.org.uk/~media/Files/Education/Resources/Developing%20rights/background\\_information\\_for\\_teachers\\_rights.ashx](http://www.oxfam.org.uk/~media/Files/Education/Resources/Developing%20rights/background_information_for_teachers_rights.ashx)

[policy-practice.oxfam.org.uk/our-work](http://policy-practice.oxfam.org.uk/our-work)

